# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 4

ARDALOEDD CADWRAETH

*Rheolaethu dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth*

PROSPECTIVE

### 161 Gofyniad i ddymchweliad gael ei awdurdodi

(1) Ni chaiff person gyflawni gwaith ar gyfer dymchwel adeilad y mae'r adran hon yn gymwys iddo, neu beri i waith o'r fath gael ei gyflawni, oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi o dan adran 162.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw adeilad mewn ardal gadwraeth, ac eithrio—
- (a) adeilad sy'n heneb gofrestredig (ond gweler adran 11);
- (b) adeilad rhestredig (ond gweler adran 88);
- (c) adeilad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;
- (d) adeilad o ddisgrifiad a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir i awdurdod cynllunio unigol gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio bod yr adran hon, er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau o dan is-adran (2)(c), i fod yn gymwys i adeilad o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(4) Nid yw is-adran (1) yn gwahardd gwaith a gyflawnir gan neu ar ran y Goron o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (a) i (d) o adran 117(4) (gwaith brys).

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 161 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith yr adran hon yn peidio â bod yn gymwys i adeilad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 161 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 161 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)